**Adroddiad Blynyddol 2016/17 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Adroddiad Cyngor Caerdydd yn unol â'i ddyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

| **Y camau a gymerwyd i hyrwyddo teithio llesol** |
| --- |
| - Diwrnod di-Draffig Medi 2017: cafodd Plas-y-Parc, sef heol yng nghanol y ddinas, ei chau am 24 awr i hwyluso amgylchedd di-draffig. Cynhaliwyd Arddangosfa Teithio Cynaliadwy ar y safle pan gaewyd y ffordd a gwahoddwyd pobl i gerdded a beicio ar brifffordd canol y ddinas sydd fel arfer â thagfeydd arni a chael gwybodaeth am ddewisiadau teithio cynaliadwy. Mesurwyd ansawdd yr aer ar y diwrnod, a chofnodwyd gostyngiad sylweddol mewn lefelau No2 a NoX yn yr ardal. Defnyddiwyd hwn fel digwyddiad peilot i fod yn hwb ar gyfer digwyddiadau mwy yn y dyfodol.<br>- Dosbarthu Map Cerdded a Beicio yng Nghaerdydd.<br>- Rhoi gwybodaeth cerdded a beicio ar wefan Cadwch Gaerdydd i Symud.<br>- Rhoi fframiau beiciau am ddim i sefydliadau trwy'r cynllun Parcio'ch Beic.<br>- Hyfforddiant beicio am ddim ar gyfer oedolion sy'n byw, gweithio neu'n astudio yng Nghaerdydd.<br>- Hyfforddiant beicio mewn ysgolion.<br>- Hyfforddiant beicio i grwpiau ieuenctid.<br>- Hyfforddiant beicio yn ystod gwyliau'r ysgol, gan gynnwys lefelau 1, 2 a 3 hyfforddiant Safonau Cenedlaethol a chwrs Dysgu Beicio.<br>- Hyfforddiant beicio ar gyfer yr heddlu.<br>- Hyfforddiant teithio annibynnol ar gyfer plant ysgol ag anghenion arbennig ac oedolion sy'n agored i niwed.<br>- Cefnogi'r gwaith o sefydlu bws cerdded yn Ysgol Gwaelod y Garth am 1 diwrnod yr wythnos.<br>- Hyfforddiant kerbcraft i blant blwyddyn 2 ar draws Caerdydd.<br>Mae'r plant hyn yn dysgu sut i groesi'r ffordd yn ddiogel gydag oedolion yn ystod y tymor.<br>- Sesiynau diogelwch ar y ffyrdd arbennig i ysgolion arbennig ar draws Caerdydd, y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn Ysgol Arbennig The Hollies ac Ysgol Arbennig Meadowbank.<br>Addysgu eu plant am bwysigrwydd gafael dwylo a sut i aros yn ddiogel. Mae hyn wedi helpu eu rhieni i fynd â nhw allan i gerdded yn hytrach nag yn y car.<br>- Strydgall.<br>Darparwyd mewn 2 ran – sesiynau theatr a sesiynau ystafell ddosbarth. Mae grŵp theatr yn mynd i'r ysgolion i berfformio "Cyrraedd Yno" i ddisgyblion blwyddyn 7. Mae'r perfformiad yn ymwneud â thrawsnewid ac annog y plant i gerdded, beicio neu fynd ar sgwter i'r ysgol yn lle mynd mewn car. Mae'n annog annibyniaeth ac yn hyrwyddo teithio llesol. Bydd sesiynau ystafell ddosbarth i ddilyn wedyn yn yr ysgolion uwchradd. Mae ysgolion cynradd yn derbyn sesiynau ystafell ddosbarth am deithio llesol a chynllunio llwybrau. |

| |
|---|
| Yna, eir â'r disgyblion allan o'r ysgol mewn grwpiau bach a chânt eu haddysgu sut i groesi'r ffordd yn ddiogel mewn amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd.<br>- Hyfforddiant balansio ar feic a defnyddio sgwter mewn un ysgol gynradd newydd yng Nghaerdydd ar ei chais.<br>- Gŵyl Gerdded Flynyddol a gynhaliwyd yn ystod Mis Cerdded Cenedlaethol ym mis Mai.<br>Cysylltodd yr ŵyl â Chlwb Cyfeiriannu De Cymru a chynhelir Digwyddiadau Cyfeiriannu, Cerdded Er Lles Iechyd Caerdydd, Wythnos Cerdded i'r Gwaith a Cherdded i'r Ysgol a Gŵyl Gerdded Bro Morgannwg.<br>- Cyhoeddiad dwy dudalen mewn Cylchgrawn Myfyrwyr ar gyfer Prifysgolion yng Nghaerdydd yn hyrwyddo cerdded a llwybrau cylchol poblogaidd.<br>- Cyfres o hysbysebion yn 'Big Issue' yn hyrwyddo Llwybrau Cyfeiriannu, teithiau cylchol a Gŵyl Gerdded Caerdydd. |
| **Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig** |
| - Llwybr 6 Pont Trelái:<br>- Gosod pont i gerddwyr/beicwyr ar draws Afon Elái a gwelliannau wrth y mynediad at Ddatblygiad y Felin Bapur i greu llwybr beicio oddi ar y ffordd rhwng Riverside Terrace a'r mynediad at Ddatblygiad y Felin Bapur.<br>Llwybr Beicio Cyfochrog A469: Lledaenu, gwelliannau i'r arwyneb a gwella'r arwyddion ar gyfer y llwybr beicio a rennir rhwng Cyfnewidfa Gabalfa a St George's Road.<br>- Cyfnod 2 Project Llwybrau Diogel yn y Gymuned Sblot: darparu croesfannau sebra dyrchafedig newydd, arafu traffig, troedffordd/llwybr beicio newydd a rennir a gwelliannau i'r droedffordd.<br>- Heol Penarth:<br>Gwelliannau i'r droedffordd.<br>- Fitzhamon Embankment:<br>Gwelliannau i arwyneb y llwybr beicio presennol a rennir.<br>- Heol Casnewydd/ Cypress Drive:<br>Gweithredu mesurau arafu traffig o amgylch y gylchfan i leihau cyflymderau cerbydau wrth iddynt nesáu a gwella mynediad i gerddwyr a beicwyr ar rannau deheuol a gorllewinol y gyffordd. Bydd y mesurau yn cysylltu â'r cynllun S278 yn y dyfodol a fydd yn gwella mynedfa i gerddwyr yn yr ardal.<br>- Parc y Mynydd Bychan/ Allensbank Road:<br>Sefydlu croesfannau sebra dyrchafedig, ffiniau bysiau a nodweddion eraill i'w gwneud hi'n haws ac yn fwy diogel i gerddwyr groesi'r ffordd, defnyddio gwasanaethau bysiau a lleihau cyflymderau traffig.<br>Gweithredu cyfyngiadau parcio er mwyn cynnig mwy o le i feicwyr deithio'n ddiogel ac yn fwy cyfleus ar hyd y ffordd gerbydau.<br>- Heol Casnewydd/Maxwell Road: |

Gosod croesfan i gerddwyr yn cynnwys goleuadau traffig ar Heol Casnewydd ger Maxwell Road yn rhan o gynllun Teithio Llesol y Coridor Dwyreiniol.

- Countisbury Avenue:
  Gosod croesfan sebra ar Countisbury Avenue yn rhan o gynllun Teithio Llesol y Coridor Dwyreiniol.
- Heol y Deri/ Lon Ucha:
  Croesfan Sebra Ddyrchafedig newydd yn rhan o'r project llwybrau diogel i'r ysgol.
- Tyndall Street:
  Gosod croesfan twcan groesgam ar Tyndall Street gyda pholion goleuadau traffig hirach i fwy o bobl allu eu gweld. Gwell mynediad a diogelwch cerddwyr drwy weithredu cyfyngiadau parcio ar Wharf Road East i fynd i'r afael â pharcio anghyfreithlon ar y droedffordd.
- Project Llwybrau Diogel yn y Gymuned Pentwyn:
  Darparu croesfannau sebra dyrchafedig newydd, arafu traffig a throedffordd newydd.
- Cynllun lleihau gwrthdrawiadau RSF Station Rd: arafu traffig a chroesfan sebra dyrchafedig.
- Heol y Gogledd / Heol y Goron:
  Adeiladu cyfleusterau croesi i gerddwyr ar draws Heol y Gogledd wrth y gyffordd bresennol â Heol y Goron sydd â goleuadau traffig a lledaenu'r ynys i gerddwyr ar Heol y Goron, er mwyn gwella cyfleusterau croesi i gerddwyr ac arafu cyflymderau cerbydau. Cyfleusterau croesi newydd i gerddwyr a reolir wrth gyffordd Heol y Gogledd â Parkfield Place ac adnewyddu palmant botymog a stydiau ffyrdd ar y croesfannau presennol. Uwchraddio croesfan pelican bresennol ar Heol y Gogledd (Wrth ymyl Blackweir Terrace) yn groesfan pâl.
- Cylchfan RSF Rhydypennau:
  Arafu traffig a chroesfan sebra ddyrchafedig.
- Ysgol Bro Eirwg:
  Parth Diogelwch Ysgol gyda chyfleusterau arafu traffig a Chroesfan Sebra Ddyrchafedig newydd.
- Heol Casnewydd / Fitzalan Place: gwelliannau i groesfannau i gerddwyr a seiclwyr yn rhan o'r cynllun gwella cyffyrdd.
- Heol Caerphilly Rd a'r A470: Gwelliannau i gyfleusterau i gerddwyr a beicwyr yn rhan o'r cynllun coridor strategol.

**Costau creu llwybrau teithio llesol a chyfleusterau newydd a gwella'r llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig yn ystod y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf:**

£3,598,670

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.